# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 2

PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL

## PENNOD 1

Y PŴER CYFFREDINOL

### 24 Pŵer cymhwysedd cyffredinol awdurdod lleol

(1) Mae gan awdurdod lleol cymhwysol bŵer i wneud unrhyw beth y caiff unigolion yn gyffredinol ei wneud, hyd yn oed os yw'r peth hwnnw, o ran ei natur neu ei raddfa neu fel arall—

- (a) yn wahanol i unrhyw beth y caiff awdurdod lleol cymhwysol ei wneud ar wahân i'r adran hon;
- (b) yn wahanol i unrhyw beth y caiff cyrff cyhoeddus eraill ei wneud.

(2) Pan fo is-adran (1) yn rhoi pŵer i awdurdod wneud rhywbeth, mae'n rhoi pŵer iddo ei wneud mewn unrhyw fodd o gwbl, gan gynnwys—

- (a) pŵer i'w wneud yn unrhyw le yng Nghymru neu yn rhywle arall;
- (b) pŵer i'w wneud at ddiben masnachol neu fel arall am ffi, neu heb fod am ffi;
- (c) pŵer i'w wneud er budd yr awdurdod, ei ardal neu bersonau sy'n preswylio neu'n bresennol yn ei ardal, neu fel arall.

(3) Nid yw cyffredinolrwydd y pŵer a roddir i awdurdod lleol cymhwysol gan is-adran (1) wedi ei gyfyngu gan fodolaeth unrhyw bŵer arall sydd gan yr awdurdod; ac nid yw unrhyw bŵer arall sydd gan yr awdurdod wedi ei gyfyngu gan fodolaeth y pŵer cyffredinol.

(4) At ddibenion y Bennod hon, mae pob un o'r canlynol yn awdurdod lleol cymhwysol—

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 24. (See end of Document for details)*

(a) prif gyngor;
(b) cyngor cymuned cymwys (gweler Pennod 2 ynglŷn â hynny).

(5) Yn yr adran hon, ystyr "unigolyn" yw unigolyn sy'n meddu ar alluedd llawn.

(6) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at y pŵer cyffredinol yn gyfeiriadau at y pŵer a roddir gan is-adran (1).

(7) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adrannau 25 i 27 ac i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan adran 28(3) neu (4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 24 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I2** A. 24 mewn grym ar 1.11.2021 gan O.S. 2021/231, **ergl. 4(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 24.